Y Comisiwn Etholiadol

**Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – DU a GI**

Refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd y DU

# Y bleidlais

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr yn refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011 sydd eisiau gwybod beth fydd yn digwydd yn ystod yr etholiad.

Cynnwys:


- Pwy all bleidleisio mewn
- Asiantiaid
- Tu fewn i'r orsaf bleidleisio

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Gorsafoedd pleidleisio

## I bwy mae'r ddogfen hon

Ymgyrchwyr sydd eisiau rhagor o wybodaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd mewn gorsafoedd pleidleisio yn y refferendwm.

## Mae'r ddogfen yn trafod

- pwy sy'n cael pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio
- asiantiaid pleidleisio
- yr hyn sy'n digwydd tu mewn i'r orsaf bleidleisio
- rhifwyr

## Dogfennau perthnasol

- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm
- Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol yn y DU
- Taflen ffeithiau: Cyfarwyddyd ar rifwyr i ymgyrchwyr
- Taflen ffeithiau: Y pethau y gall rhifwyr 'eu gwneud' a 'dim eu gwneud'
- Taflen ffeithiau: Gofynion cyfrinachedd yn refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

## Ffurflenni

- Ffurflen penodi asiantiaid pleidleisio

2

# Crynodeb

Mae'n rhaid i brosesau'r refferendwm fod yn dryloyw ac yn agored i archwiliad, i sicrhau hyder y cyhoedd yn y refferendwm a'r canlyniadau.

Mae gan ymgyrchwyr rôl bwysig o ran sicrhau bod y refferendwm yn cael ei gynnal yn y modd hwn.

Mae'r ddogfen hon yn darparu rhagor o fanylion ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn y gorsafoedd pleidleisio.

# Cyflwyniad

## Pwy sy'n cael pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis pleidleisio mewn person yn eu gorsafoedd pleidleisio. Mae gan unrhyw berson sydd ar gofrestr etholiadol yr orsaf bleidleisio'r hawl i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, oni bai:

- eu bod nhw wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post
- eu bod nhw wedi cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy, a bod eu dirprwy wedi pleidleisio drostynt
- nad ydynt yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn ar ddiwrnod y pleidleisio

Bydd etholwyr yn derbyn cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad, yn dweud wrthynt ym mhle a phryd i bleidleisio. Does dim angen i etholwyr fynd â'u cerdyn pleidleisio i'r orsaf bleidleisio i bleidleisio. Fodd bynnag, yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen i etholwyr gyfwyno ffurf addas o adnabyddiaeth ffoograffig.

Nid yw'n bosib i'r rhai hynny sydd wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post dderbyn papur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, ond ym Mhrydain Fawr, gall pleidleiswyr eu dychwelyd â llaw i orsafoedd pleidleisio penodol ar ddiwrnod y pleidleisio. Y gorsafoedd pleidleisio penodol yw'r rhai hynny sydd:

- yn Lloegr, sydd wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod lleol
- yn yr Alban, sydd wedi'u lleoli o fewn etholaeth Senedd yr Alban,
- yng Nghymru, sydd wedi'u lleoli o fewn etholaeth y Cynulliad

Yng Ngogledd Iwerddon, ni chaiff pleidleiswyr ddychwelyd pleidleisiau post i orsafoedd pleidleisio.

## Oriau agor gorsafoedd pleidleisio

Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor ar 5 Mai 2011 rhwng **7yb a 10yh.**

# 4

## Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio

O ran y refferendwm ar 5 Mai 2011, bydd Swyddogion Cyfrif yn hysbysu'r cyhoedd o leoliad y gorsafoedd pleidleisio **erbyn dydd Gwener 8 Ebrill 2011.** Byddant yn rhoi copi o'r hysbyseb hwn i asiantiaid refferendwm yn fuan wedyn.

# Asiantiaid pleidleisio

Gall asiantiaid pleidleisio benodi asiantiaid i arsylwi gweithrediadau tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

## Beth yw rôl asiant pleidleisio?

Mae gan asiantiaid pleidleisio nifer o rolau pwysig i'w chwarae ar ddiwrnod y pleidleisio. Gallant:

- fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio cyn agor y pleidleisio i wylio'r Swyddog Llywyddu yn dangos y blwch pleidleisio gwag cyn iddo gael ei selio
- ddatgan cam-bersonadu ac atal pobl rhag pleidleisio mwy nag unwaith yn y refferendwm
- roi gwybod i'r asiant refferendwm am unrhyw weithgareddau amhriodol, a chadw nodiadau, os oes angen, er mwyn rhoi tystiolaeth mewn llys
- fod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu yn marcio papur pleidleisio yn unol â gofynion etholwr
- fod yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio pan fydd y pecynnau o ddogfennau amrywiol yn cael eu selio
- atodi eu sêl i unrhyw becynnau sydd wedi cael eu pacio gan y Swyddog Llywyddu ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, yn cynnwys y blwch pleidleisio

Mae gan asiant pleidleisio'r hawl i archwilio sawl agwedd o'r weithdrefn pleidleisio, ond nid yw'r weithdrefn yn ddilys os nad ydynt wedi bod yn dyst iddi.

**Personeiddio** yw pan fo unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (p'un ai a yw'r person hwnnw yn fyw neu wedi marw, neu'n berson ffug)

Ni chaiff seliau asiantiaid pleidleisio gael eu hatodi i flychau pleidleisio ar ddechrau neu yn ystod y pleidleisio.

## Pwy sy'n gallu bod yn asiant pleidleisio?

Gall unrhyw un, heblaw am swyddogion sy'n cael eu cyflogi gan Swyddog Cyfrif, gael eu penodi fel asiant pleidleisio. Gall asiant refferendwm eu hunain weithredu fel asiant pleidleisio.

Gall person gael ei benodi fel asiant pleidleisio ac fel asiant ar gyfer mynychu gweithrediadau eraill, hy agor pleidleisiau post

neu'r cyfrif.  I gael rhagor o wybodaeth ynghylch y rhain, gweler y dogfennau perthnasol ar ein gwefan.

## Sut i benodi asiantiaid pleidleisio

Mae'n rhaid i'r cais i benodi asiantiaid pleidleisio gael ei gyflwyno ar bapur i'r Swyddog Cyfrif. Mae'n rhaid iddo gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl sy'n cael eu penodi. O ran y refferendwm ar 5 Mai 2011, dylid cyflwyno'r cais i'r Swyddog Cyfrif dim hwyrach na **dydd Mawrth 26 Ebrill 2011**.

Bydd y Swyddog Cyfrif yn darparu ffurflen ar gyfer hyn, neu gallwch ddod o hyd i un ar wefan y Comisiwn.

## Faint o asiantiaid pleidleisio sy'n gallu cael eu penodi?

Mae'r asiant refferendwm yn gallu penodi unrhyw nifer o asiantiaid pleidleisio i fynychu pob gorsaf bleidleisio.

Gellir penodi asiant i fynychu mwy nag un orsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob asiant refferendwm sy'n gallu bod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

## Cyfrinachedd y bleidlais

Mae gan asiantiaid ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd y bleidlais. Yn arbennig, ni ddylai asiantiaid pleidleisio roi gwybodaeth i unrhyw un ynghylch:

- pwy sydd wedi pleidleisio neu heb bleidleisio
- rhif etholiadol person
- y marc swyddogol ar y papur pleidleisio

Gall asiant pleidleisio farcio'r pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapurau pleidleisio ar eu cofrestr etholwyr. Os yw'r asiant pleidleisio'n gadael yr orsaf bleidleisio yn ystod yr oriau pleidleisio, mae'n rhaid iddynt adael y copi wedi'i marcio o'r gofrestr yn yr orsaf bleidleisio, i sicrhau nad yw gofynion cyfrinachedd yn cael eu torri.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

- Taflen ffeithiau: Gofynion cyfrinachedd yn refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

# 8

Gall unrhyw berson sy'n cael eu dyfarnu'n euog o dorri'r gofynion cyfrinachedd wynebu dirwy o hyd at £5,000, neu fynd i'r carchar hyd yn oed.

# Tu mewn i'r orsaf bleidleisio

## Beth yw'r broses pleidleisio arferol?

Mae'r broses bleidleisio arferol mewn gorsaf bleidleisio yn syml, a gellir ei chrynhoi fel a ganlyn:

### Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn…

… gofyn i bleidleiswyr i gadarnhau eu henw a'u cyfeiriad, a'n gwneud yn siŵr eu bod yn gymwys i bleidleisio

… marcio llinell syth yn erbyn cais y pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr

… galw rhif ac enw'r etholwr

… ysgrifennu rhif yr etholwr ar y rhestr rhif cyfatebol wrth ymyl rhif y papur pleidleisio fydd yn cael ei gyhoeddi

… sicrhau fod y papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol (e.e. côd bar neu ddyfrnod)

… plygu'r papur pleidleisio, wedyn ei gyflwyno heb ei blygu i'r pleidleisiwr fel eu bod yn gallu gweld yr holl opsiynau ar y papur pleidleisio

### Bydd y pleidleisiwr yn…

… marcio'r papur pleidleisio mewn preifat yn y bwth pleidleisio

… plygu'r papur pleidleisio a'n dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu

… rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio

Ar 5 Mai 2011, bydd etholiadau'n cael eu cynnal mewn rhai ardaloedd hefyd. Yn yr achos hwnnw, bydd staff gorsafoedd pleidleisio'n cyhoeddi'r nifer gofynnol o bapurau pleidleisio ychwanegol.

Mae posibiliad y bydd gan ddigwyddiadau etholiadol ofynion etholfraint gwahanol, felly weithiau, ni fydd gan etholwr yr hawl i bleidleisio ym mhob un o'r etholiadau sy'n cael eu cynnal.

Hefyd, gellir defnyddio blwch pleidleisio unigol ar gyfer pob un o'r cystadlaethau, neu gellir defnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer pob cystadleuaeth unigol.

Mae cymorth ar gael i unrhyw un sydd ddim yn gallu marcio'r papur pleidleisio eu hunain.

## Casglu'r pleidleisiau post o'r orsaf bleidleisio

Ym Mhrydain Fawr, gall y Swyddog Cyfrif drefnu casglu unrhyw bleidleisiau post sydd wedi cael eu cyflwyno yn y gorsafoedd pleidleisio gan etholwyr. Mae'n rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio unrhyw bleidleisiau post mewn pecyn cyn iddynt gael eu casglu. Gall unrhyw asiantiaid sy'n bresennol ychwanegu sêl eu hunain i'r pecyn os ydynt yn dymuno.

## Beth sy'n digwydd ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio?

Mae'r blychau pleidleisio'n cael eu selio, a gall yr asiantiaid refferendwm a'r asiantiaid pleidleisio ychwanegu sêl eu hunain os ydynt yn dymuno.

# Rhifwyr

## Beth yw rôl y rhifwyr?

Rhifwyr yw'r bobl sy'n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio a'n cofnodi rhifau etholiadau etholwyr sydd wedi pleidleisio.

Yna, gallant adnabod cefnogwyr tebygol sydd heb bleidleisio, a'u hannog i bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio.

Nid oes gan rifwyr unrhyw statws cyfreithiol, ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi gwybodaeth iddynt.

Rydym wedi cynhyrchu ffeithlen: Taflen ffeithiau: Y pethau y gall rhifwyr 'eu gwneud' a 'dim eu gwneud', a hefyd: Taflen ffeithiau: Cyfarwyddyd ar rifwyr i ymgyrchwyr. Pwrpas y canllaw yw sicrhau fod pawb yn gwybod yn union beth sy'n dderbyniol a dim yn dderbyniol, a hyrwyddo safonau ymddygiad priodol.

Y Swyddog Cyfrif sy'n gyfrifol am gynnal y refferendwm. Os ydynt yn pryderu am weithgareddau'r rhifwyr, gallant ofyn i'r rhifwyr i gydymffurfio â'r ymddygiad a gytunwyd arno, neu adael yr orsaf bleidleisio.

## Sut fedrwn ni helpu?

Gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau ac adnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n rhwyddach, gallwch ein ffonio ni ar y rhif isod, neu anfon e-bost atom ni. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni: 020 7272 0616

Anfonwch e-bost atom ni: info@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni: www.electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk